Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Preswylfa**

**Cartref Nyrsio Preswylfa**
**20 Russell Road**
**Y Rhyl**
**LL18 3DD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/11/2022
**17/11/2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Preswylfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Akari Care Cymru Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 68 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20/7/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Caiff y bobl eu trin â charedigrwydd a pharch. Mae'r staff yn ofalgar ac yn llawn cymhelliant, ac mae'n amlwg bod cydberthnasau da rhwng y preswylwyr a'r staff. Caiff trefn arferol y bobl ei pharchu. Mae bwydlenni'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth eang o brydau y gall y bobl ddewis o'u plith. Mae systemau trylwyr ar waith i gyfarwyddo, tywys a chefnogi'r staff. Mae prosesau rheoli effeithiol yn golygu y gellir diogelu iechyd, diogelwch a llesiant y preswylwyr. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân wedi'i bersonoli ac mae'r staff yn sicrhau y caiff cyfrinachedd ac urddas y bobl bob amser eu diogelu.

Mae'r bobl yn cael safon dda o ofal ac mae'r staff yn deall pwysigrwydd cydnabod unigolrwydd y bobl. Caiff amrywiaeth o weithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol eu cynnig bob dydd er mwyn cyfoethogi bywydau'r bobl. Mae'r staff yn teimlo bod y rheolwr ac aelodau eraill o'r tîm yn eu cefnogi'n llawn. Mae digon o staff wedi'u hyfforddi'n addas ar ddyletswydd bob amser yn y gwasanaeth, sydd o fudd i'r bobl.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth o ran y gofal a'r cymorth a gânt yn y cartref. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch a chafodd hyn ei gadarnhau gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw. Nodwyd gennym fod awyrgylch hapus a chroesawgar yn y cartref. Gall y bobl wneud dewisiadau a phenderfyniadau am eu trefn o ddydd i ddydd, ble y byddant yn treulio eu hamser a gyda phwy. Gall ymwelwyr fynd a dod fel y mynnant. Mae cyfleoedd i'r bobl siarad â'r rheolwr gan ei fod yn weladwy a hygyrch. Mae'r cynlluniau gofal personol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys cyfarwyddyd manwl a chlir ar sut y dylid cyflawni pob agwedd ar y trefniadau yw beunyddiol.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn iach ac yn egnïol. Gwelsom y bobl yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn cael dewis o ran beth i'w wneud, a dywedodd y bobl wrthym hefyd fod hynny'n digwydd. Cynigir amrywiaeth o brydau i'r bobl, a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau'r prydau hynny. Gwelsom o'r cofnodion fod y bobl yn cael cymorth i weld gweithwyr iechyd proffesiynol cyn gynted â phosibl os bydd angen iddynt wneud hynny, a chadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod hyn yn digwydd. Gwelsom fod digon o staff i helpu'r bobl â'u holl anghenion.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n teimlo'n gartrefol iddynt. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw, gan gynnwys ymwelwyr rheolaidd â'r cartref, fod y cartref bob amser yn lân. Gwelsom fod y bobl yn gallu trefnu eu hystafelloedd fel y mynnant, a'u bod yn gallu dod â dodrefn o'u cartrefi eu hunain. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r amgylchedd yn rheolaidd, ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Nid oes unrhyw beryglon yn y cartref a chaiff eitemau o'r fath eu storio'n ddiogel. Codwyd ffens newydd y tu ôl i'r eiddo er mwyn sicrhau bod y safle yn ddiogel.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r rheolwr a'r staff yn deall nodau'r gwasanaeth a'u rolau a'u cyfrifoldebau yn glir ac maent wedi meithrin cydberthnasau diogel a chadarnhaol â'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gyfforddus yn siarad â'r staff a'r rheolwr am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddent yn ceisio ymdrin â nhw. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau iddynt eu dilyn.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ar ôl ymgynghori â nhw. Cyflogwyd unigolyn gweithgareddau newydd yn ddiweddar ac mae'n datblygu'r maes hwn ar hyn o bryd. Trefnwyd cyfarfodydd unigol ac ymgynghorir â'r bobl yn rheolaidd am feysydd fel eu gorffennol, eu diddordebau, eu hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r gweithgareddau wedi gwella'n sylweddol ac mae diddanwyr allanol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Drwy edrych ar yr amserlenni gweithgareddau a siarad â'r bobl, cawsom dystiolaeth fod amrywiaeth o weithgareddau fel ymweliadau un-i-un ag ystafelloedd, gemau egnïol, diwrnodau pampro, cantorion allanol, boreau coffi, celf, crefftau a hwyl a gwau yn cael eu cynnal.

Mae'r staff yn gwerthfawrogi dewisiadau'r bobl o ran eu trefn arferol ac mae'r profiad yn ystod prydau yn gadarnhaol. Mae'r opsiynau ar y fwydlen wedi gwella a cheir bellach amrywiaeth o ddewisiadau o ran y fwydlen lysieuol. Mae'r fwydlen ddyddiol a'r fwydlen prydau ysgafn i'w gweld yn yr ystafell fwyta yn ogystal â'r dewis o ran beth yr hoffent ei gael i frecwast, a gofynnodd y bobl am amrywiaeth o opsiynau i frecwast yn ystod yr arolygiad. Mae'r staff yn cynnig bwydydd poeth a byrbrydau eraill i'r bobl yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael dewis yn ystod amser prydau, a'u bod yn fodlon ar y bwyd.

Mae gan bob person gynllun personol cywir a chyfredol sy'n nodi sut y dylid darparu gofal er mwyn diwallu ei anghenion. Mae'r cynlluniau personol wrthi'n cael eu hailysgrifennu ac maent yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar anghenion iechyd ac anghenion corfforol yr unigolyn a sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu. Maent yn adlewyrchu anghenion cyfredol yr unigolyn a chânt eu hadolygu unwaith y mis neu'n amlach os bydd angen newid ar yr unigolyn. Mae'r nodiadau dyddiol yn dangos yn gyson bod y staff yn rhoi'r lefel briodol o dewychydd yn niodydd y bobl a'u bod yn darparu'r deiet a ragnodwyd. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol, fel y meddyg teulu, deietegydd, therapydd lleferydd ac iaith a therapydd galwedigaethol.

Mae'r bobl yn cael y gofal cywir, ar yr adeg gywir, yn y ffordd y maent yn dymuno ei gael. Mae system ‘Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni’ ar waith lle gall y preswylwyr a'r staff leisio eu barn a chaiff camau eu cymryd lle y bo'n bosibl gan y rheolwr. Caiff y canlyniadau eu harddangos yn y prif goridorau. Dywedodd y bobl eu bod yn cael dewis o ran pryd yr hoffent fynd i'r gwely a phryd yr hoffent godi. Mae'r dewisiadau ymolchi a roddir i'r bobl wedi gwella ac roedd y dogfennau a welsom yn dangos tystiolaeth bod y bobl yn cael cynnig bath a chawod yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n wynebu risg uchel y byddant yn datblygu briwiau pwyso yn cael eu symud yn rheolaidd fel y rhagnodir yn eu cynllun personol. Caiff deiet a hylifau eu monitro gan y staff clinigol a chaiff unrhyw bryderon eu codi drwy'r system gofal electronig sy'n hysbysu staff pan fydd angen ystyried anghenion gofal y bobl neu lle na fydd targedau dyddiol fel lefelau hylif wedi'u cyrraedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth, ac er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae archwiliadau yn cael eu cynnal o gynlluniau personol, cwympiadau, pwysau, meddyginiaeth a rheoli heintiau. Caiff archwiliad rheoli dyddiol ei gwblhau sy'n ymdrin â sawl maes fel yr amgylchedd, dogfennaeth gofal, staffio a siarad â'r preswylwyr. Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Datblygu'r Cartref sy'n cynnwys y camau gweithredu gofynnol ac amserlenni ar gyfer eu cwblhau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cysylltu â'r cartref yn rheolaidd ac mae wedi llunio adroddiad manwl bob tri mis sy'n cynnwys siarad â'r bobl a'r staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr interim yn cysylltu â'i gilydd yn rheolaidd drwy gydol y dydd i drafod pob agwedd ar y gwasanaeth.

Mae'r prosesau ar gyfer rheoli a rhedeg y cartref bellach yn drylwyr. Mae'r rheolwr interim a'r uwch-aelodau o staff yn darparu gofal uniongyrchol ac maent yn weladwy i'r staff ac yn goruchwylio'r gwasanaeth. Canmolodd y staff y gwelliannau o ran arweinyddiaeth a rheolaeth yn y cartref ac mae morâl y staff wedi gwella. Nododd y staff fod y rheolwr yn hawdd mynd ato a'u bod yn teimlo bod eu safbwyntiau ac unrhyw bryderon yn cael eu hystyried o ddifrif.  Mae'r trefniadau goruchwylio clinigol bellach wedi gwella, ac mae'r ffaith bod unigolyn profiadol a medrus bellach wrth y llyw o fudd i'r staff o ran eu harwain a'u tywys.

Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'u cydweithwyr. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn gan y rheolwr. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a bod morâl wedi gwella yn y cartref. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon â'r rheolwr gan ei fod yn hawdd mynd ato a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai'n gwrando arnynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwylio unigol rheolaidd. Roedd y matrics hyfforddiant yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant sy'n ofynnol ac yn berthnasol ar gyfer eu rolau ac mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n barhaus. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, maeth a hydradu, iechyd y geg, cadw cofnodion a hyfywedd meinwe yn ddiweddar. Mae'r lefelau staffio yn y cartref yn cefnogi anghenion ac amgylchiadau newidiol y bobl sy'n byw yno, a phrin yw'r defnydd a wneir o staff asiantaeth. Mae rhaglen recriwtio barhaus ar waith ac mae staff mewnol y cartref yn gweithio oriau ychwanegol pan fydd angen gwella lefelau staffio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy’n diogelu, yn hybu ac yn cynnal diogelwch a llesiant unigolion. Ceir oedi o ran sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion iechyd, eu hanghenion emosiynol a'u hanghenion llesiant seicolegol. | Cyflawnwyd |
| 66 | Mae gan yr unigolyn cyfrifol systemau a phrosesau ar waith i oruchwylio a rheoli'r gwasanaeth, ond mae angen eu hatgyfnerthu'n sylweddol. Mae'r diffyg gweithredu ganddo wedi cael effaith ar ansawdd y | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | gofal a ddarperir. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/12/2022